Darganfod
Dadlau
Dewis

Discover
Debate
Decide

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

# Ymchwiliad ar gyfranogi yn y celfyddydau

## Cwestiynau ar gyfer cyfranogwyr



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

# Croeso

**Mae Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i gyfranogiad yn y celfyddydau, ac mae angen eich cymorth arnom.**

**Yn y cyd-destun hwn, mae 'cyfranogi' yn golygu chwarae rhan weithredol mewn gweithgareddau celfyddydol, drwy wneud a chreu, yn hytrach na gwylio fel aelod o'r gynulleidfa.**

**Yn 2011, cynhaliodd y cyn Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant ymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru. Diben yr ymchwiliad newydd hwn yw datblygu argymhellion yr adroddiad hwnnw, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyfranogiad yn y celfyddydau.**


**Buom yn siarad â nifer o sefydliadau a ddywedodd wrthym eu bod yn pryderu y gallai toriadau mewn cyllidebau yn y sector celfyddydau gael effaith negyddol ar gyfranogiad yn y celfyddydau ymysg rhai grwpiau o bobl. Rydym am gael gwybod beth yw eich barn chi am hyn.**



**Hoffem glywed barn sefydliadau celfyddydol ac unigolion sy'n cyfranogi yn y celfyddydau. I'n cynorthwyo i gasglu'r wybodaeth y mae ei hangen arnom, rydym wedi llunio dau holiadur, un ar gyfer cyfranogwyr ac un ar gyfer sefydliadau. Byddai o gymorth mawr pe gallech roi munud neu ddau o'ch amser i lenwi'r holiadur isod a chyfleu eich barn.**

**Mae'r ymgynghoriad yn agored i unrhyw sefydliad sy'n darparu gweithgareddau celfyddydol sydd naill ai wedi'u hariannu neu sydd ar sail wirfoddol, ac unrhyw un sy'n cyfranogi yn y celfyddydau. Nid yw'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar grŵp penodol o bobl, ac rydym am glywed barn cymaint o bobl â phosibl.**

**Rydym hefyd am i chi fod yn greadigol yn eich ymateb – er enghraifft, gallwch wneud fideo neu gyflwyno drama er mwyn dweud eich barn wrthym.**



**I roi syniad mwy eglur i chi o'r hyn y byddwn yn ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwn, ceir y meysydd y byddwn yn eu trafod isod.**

**Bydd y Pwyllgor yn:**

- **asesu effaith toriadau mewn cyllidebau ar gyfranogiad yn y celfyddydau yng Nghymru, yn arbennig a yw hyn wedi effeithio mwy ar rai grwpiau o bobl nag eraill;**
- **canfod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer cyfranogiad yn y celfyddydau, o ran demograffeg a daearyddiaeth;**
- **ystyried rôl y sector celfyddydau gwirfoddol o ran cyfranogiad yn y celfyddydau a ffynonellau ariannu eraill;**
- **gwerthuso'r fframwaith polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyrff sy'n dosbarthu arian i'r celfyddydau; ac,**
- **ystyried a oes gan fudiadau celfyddydol yng Nghymru y modd o ddarparu amcanion cydraddoldeb eu harianwyr.**



# Cwestiynau

**Byddai o gymorth mawr i ni pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn.**

**1 Pa fath o weithgareddau celfyddydol rydych yn cyfranogi ynddynt ar hyn o bryd (er enghraifft drama, cerddoriaeth, celf, ysgrifennu, crefftau, gwneud ffilmiau, dawnsio)?**

................................................................................

................................................................................

................................................................................

................................................................................

................................................................................

................................................................................

**2 Pam ydych chi'n cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol?**

................................................................................

................................................................................

................................................................................

................................................................................

................................................................................

................................................................................

**3 a) A yw'r ddarpariaeth gelfyddydol yn eich ardal chi wedi cael ei thynnu'n ôl oherwydd toriadau cyllidebol?**

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

**b) Os yw, sut y mae hyn wedi effeithio arnoch chi?**

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

**4 A ydych yn credu bod digon o gyfleoedd ar gael i bobl gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol yn eich ardal chi?**

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................



**5 A oes unrhyw beth a fyddai'n eich cynorthwyo i gyfranogi mwy yn y celfyddydau?**

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

**6 Beth allai eich atal rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol (er enghraifft, hygyrchedd)?**

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................



# Ffurfiau hygyrch


**Gellir cael copïau o'r holiadur hwn mewn fformatau hygyrch hefyd, gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled, gan:**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

# Diolch yn fawr am eich help chi

**Anfonwch yr holiadur hwn at y cyfeiriad canlynol os gwelwch yn dda:**

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**
**RHADBOST SWC 3358**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1GY**




Discover
Debate
Decide
Darganfod
Dadlau
Dewis

